

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Belgrave Dental Centre

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wriad ansawdd o bell o Belgrave Dental Centre fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ar 29 Mawrth 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion a staff. Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg a'r adolygiadau o ddigwyddiadau, a holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Rhannwyd y gweithlu yn ddau dîm (i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau) er mwyn osgoi unrhyw gysylltiad diangen rhwng y staff a chadw'r timau yn gyson er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff a'r cleifion, ynghyd â safleoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis. Cafodd amserlenni glanhau eu diwygio er mwyn glanhau'n amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19 yng Nghymru.

Dywedwyd wrthym am newidiadau a wnaed i'r amgylchedd i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw a allai ymweld â'r practis. Roedd dodrefn a chadeiriau wedi cael eu symud o'r ardaloedd aros. Tynnwyd yr holl eitemau diangen o'r ystafelloedd triniaeth a rhoddwyd gorchuddion plastig y gellir eu sychu dros yr holl wrthrychau hanfodol, megis sgriniau cyfrifiaduron.

Pan fydd cleifion yn cyrraedd y practis ar gyfer apwyntiadau, gofynnir iddynt aros yn eu ceir nes i aelod o staff ddweud wrthynt am ddod i mewn. Cymerir eu tymheredd, darperir masg wyneb newydd iddynt ynghyd â diheintydd dwylo wrth iddynt fynd i mewn i'r practis. Dywedwyd wrthym fod system un ffordd ar waith drwy'r adeilad a bod y staff yn defnyddio 'walkie talkies' i gyfathrebu ag eraill am leoliad cleifion a staff er mwyn sicrhau bod y coridorau'n aros yn glir.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg COVID-19 wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad, byddai'r practis yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff warchod¹ neu ymgymryd â rôl wahanol yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod gan bob un o'r tair deintyddfa ddigon o gyfarpar i gynnal Gweithdrefnau Cynhyrchu Aerosol (AGP)². Roedd system awyru fecanyddol wedi'i gosod

¹ Defnyddir y gair hwn i ddisgrifio'r ffordd y dylai'r bobl risg uchel amddiffyn eu hunain drwy beidio â gadael eu cartrefi a lleihau pob cyswllt wyneb yn wyneb.

² Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef â chyfrwng

mewn dwy ddeintyddfa er mwyn helpu i gael gwared ag aer halogedig, ac roedd disgwyl i'r gwaith a oedd ar y gweill i osod system awyru fecanyddol yn y tair ddeintyddfa arall gael ei gwblhau'n fuan. O ran y ddeintyddfa AGP nad oed ganddi system awyru fecanyddol, roedd cleifion yr oedd angen triniaethau AGP arnynt yn cael apwyntiadau tua amser cinio a diwedd y dydd fel y gellid cwblhau trefniadau glanhau ychwanegol heb amharu fawr ddim ar amseroedd apwyntiadau.

Er mwyn galluogi digon o amser i ddihalogi rhwng cleifion, roedd llai o apwyntiadau ar gael. Nododd y staff nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar brofiad y cleifion na'r gofal yr oedd y cleifion yn ei gael. Dywedodd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis eu bod yn teimlo bod y staff yn gweithio'n dda o fewn y cyfyngiadau a'r canllawiau, a'u bod wedi addasu'n dda iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg penodol ar gyfer COVID-19 a gafodd ei gwblhau ym mis Chwefror 2021. Mae gan feysydd sy'n peri pryder bwyntiau gweithredu i liniaru'r problemau a godwyd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg amgylcheddol cyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd dyddiad ar y ddogfen hon. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis nodi dyddiad ar y ddogfen hon i gofnodi'n glir pryd y cynhaliwyd yr asesiad.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r practis wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r practis yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys llawlyfr ar COVID-19. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau (IPC), ynghyd â gweithdrefnau glanhau'r practis a chofnodion dihalogi offer a chyfarpar deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd dystiolaeth o hyn mewn nifer o bolisiau a oedd yn pennu camau gweithredu a chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant PPE,

heintus a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

gan gynnwys hyfforddiant masgiau a gwisgo a diosg PPE, wedi cael ei ddarparu i bob aelod o'r staff.³

Dywedwyd wrthym fod yr alwad brysben⁴ yn helpu i nodi'r cyfarpar a fydd yn ofynnol pan gaiff gweithdrefnau AGP eu cynnal. Caiff hyn ei baratoi ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod llai o staff yn dod i mewn neu'n gadael y ddeintyddfa yn ystod y weithdrefn. Dywedodd y staff wrthym fod nyrs gyfeillio hefyd ar ddyletswydd yn ystod y gweithdrefnau hyn. Maent yn hebrwng y cleifion yn ôl ac ymlaen i'r ddeintyddfa ac yn sicrhau bod arwyddion 'dim mynediad' yn cael eu harddangos ar ddrysau'r deintyddfeydd pan fyddant yn cael eu defnyddio. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod cyn lleied o risg o haint â phosibl yn ystod gweithdrefnau AGP.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn y practis wedi cael brechlynnau COVID-19, ac roedd yr holl staff wedi cael y ddau ddos gofynnol.

Esboniodd y staff eu bod yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad i ofyn cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn penderfynu a oedd perygl y gallent drosglwyddo'r feirws. Cafodd cleifion a oedd yn dangos symptomau neu'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 gyfarwyddyd i aros gartref ac i beidio â mynychu'r practis.

Dywedodd y practis fod ganddo ddigon o PPE a bod gwiriadau wythnosol o stoc yn cael eu cynnal. Caiff y stoc ofynnol ei gofnodi ar fwrdd gwyn a'i ddileu oddi arno ar ôl iddo gael ei archebu a chyrraedd y practis.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom gopiâu o gofnodion glanhau masgiau ar gyfer y deintyddfeydd i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau. Roedd rhai o'r dyddiadau a nodwyd ar y cofnodion yn cynnwys y flwyddyn anghywir. Felly, argymhellir y dylid gwirio'r cofnodion hyn er mwyn sicrhau bod y data'n cael eu cofnodi'r gywir.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r practis, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau.

³ Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) amdanoch; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) oddi amdanoch.

⁴ Brysben⁴ yw'r broses o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, prognosis a'r adnoddau sydd ar gael.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol. Esboniodd y staff y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol hefyd. Yn absenoldeb hyfforddiant wyneb yn wyneb, roedd y staff wedi parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu⁵ ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Yn ogystal, roedd staff y practis wedi ffilmio eu fideos hyfforddiant eu hunain a oedd yn cynnwys glanhau AGP. Rhannwyd y fideos hyn ymhlith y grŵp o staff er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) wedi cael ei drefnu ac y byddai'n cael ei ddarparu mewn sesiynau ar gyfer grwpiau bach o'r staff er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor ar ddechrau'r pandemig, a hynny un unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd y practis ymhlith y rhai cyntaf yn ardal bwrdd iechyd Bae Abertawe i ddechrau gweithdrefnau APG, pan ddynodwyd y practis yn ganolfan APG frys gan y bwrdd iechyd. Roedd y practis yn gweithredu gyda gweithlu llai yn ystod y cyfnod hwn. Drwy gydol y pandemig, mae'r practis wedi cynnal system o dderbyn galwadau am wasanaeth brysennu o bell⁶ gan glinigydd. Mae hyn yn sicrhau y gellir darparu gofal i gleifion yn unol â'u hanghenion.

Mae'r practis wedi cynnal eu prosesau ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, gyda'r prif ddeintydd a rheolwr y practis yn goruchwyllo unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Darparwyd unrhyw ganllawiau diwygiedig ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn ystod cyfarfodydd staff rheolaidd, drwy grŵp cyfryngau cymdeithasol y staff a thrwy e-byst a galwadau fideo.

Esboniwyd y broses ar gyfer archwilio cyfarpar brys a meddyginiaethau. Mae un aelod o'r staff yn gyfrifol am gyflawni'r archwiliadau wythnosol a chofnodi'r canfyddiadau yn y cofnodion priodol. Cwblheir asesiadau risg a defnyddir PPE os yw'n ofynnol i gontractwr allanol fynd i'r practis.

Gwnaethom ddarllen y Datganiad o Ddiben⁷ a'r Daflen Gwybodaeth i Gleifion⁸, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

⁵ Dysgu a gynhelir drwy gyfryngau electronig, ar y rhyngwyd fel arfer.

⁶ Pennu graddau difrifoldeb er mwyn penderfynu ar y drefn o ran darparu triniaeth i nifer o gleifion.

⁷ Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad a luniwyd yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.

⁸ Gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Belgrave Dental Centre

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg amgylcheddol cyffredinol a sicrhau bod y ddogfen yn cael ei dyddio i ddangos yn glir pa bryd y cafodd yr asesiad ei gwblhau	Y Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Gyfathrebu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1) (a)	Byddwn yn sicrhau bod holl ddogfennau polisi y practis yn y dyfodol, gan gynnwys yr asesiad risg amgylcheddol, wedi'u dyddio i ddangos yn glir pa bryd y cwblhawyd yr asesiad neu'r ddogfen.	Huw Hopkins	Un mis
2	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r cofnodion glanhau masgiau ar gyfer y deintyddfeydd i fyny'r grisiau ac i lawr	Y Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.4	Byddwn yn llenwi adrannau dyddiad yr holl gofnodion glanhau ymlaen llaw er mwyn lleihau'r risg	Huw Hopkins	Ar unwaith

	y grisiau er mwyn sicrhau bod data cywir yn cael eu cofnodi, yn benodol y dyddiadau pan fydd tasgau wedi'u cwblhau	Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Gyfathrebu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1) (a)	o wall dynol wrth gofnodi dyddiadau.		
--	--	--	--------------------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Huw Hopkins

Dyddiad: 13/04/2021